**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL CYFIAWNDER TROSEDDOL A'R LLYSOEDD**

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, ac y caniateir i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd un o Filiau Senedd y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu'n addasu'r cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw.

2. Cafodd y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Chwefror 2014*.* Mae'r Bil ar gael yma:

   http://services.parliament.uk/bills/2013-14/criminaljusticeandcourts.html

## Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Amcanion polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â'r Bil yw gwneud darpariaeth ynghylch sut yr ymdrinnir â throseddwyr cyn cael eu collfarnu ac wedyn; diwygio trosedd meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol; gwneud darpariaeth ynghylch achosion a phwerau llysoedd a thribiwnlysoedd; gwneud darpariaethau ynghylch adolygiadau barnwrol; ac at ddibenion cysylltiedig.

4. Gellir crynhoi darpariaethau allweddol y Bil fel a ganlyn:

   - Mae Rhan 1 ac Atodlenni 1 a 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfiawnder troseddol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch dedfrydu a rhyddhau troseddwyr a'u galw yn ôl ac ynghylch monitro electronig ar droseddwyr a ryddhawyd ar drwydded, ac ynghylch rhoi rhybuddiadau. Mae Rhan 1 hefyd yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â throsedd meddu ar bornograffi eithafol.

   - Mae Rhan 2 ac Atodlenni 3 a 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cadw troseddwyr ifanc, ynghylch rhoi rhybuddiadau a rhybuddiadau amodol i bobl ifanc ac ynghylch gorchmynion atgyfeirio.

   - Mae Rhan 3 ac Atodlenni 5 i 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch llysoedd a thribiwnlysoedd, gan gynnwys darpariaethau sy'n creu gweithdrefn newydd i'w defnyddio mewn achosion troseddol yn y llysoedd ynadon o dan amgylchiadau penodol, darpariaeth ynghylch adennill costau'r llysoedd troseddol oddi ar droseddwyr, ynghylch apelau a chostau mewn achosion sifil ac ynghylch dirmyg llys a rheithgorau.

- Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle caniateir i'r Uchel Lys a'r Tribiwnlys Uchaf wrthod rhyddhad mewn adolygiad barnwrol ac ynghylch cyllid a chostau mewn perthynas ag achosion o'r fath.

**Y Darpariaethau yn y Bil y gofynnir am gydsyniad iddyn nhw**

5. Rhan 4 o'r Bil, ochr yn ochr ag Atodlen newydd (yr "Atodlen newydd") a fewnosodwyd yn y Bil ar ffurf gwelliant ar 6 Mai, sydd wedi arwain at y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Mae'r Atodlen newydd yn cynnig diwygio'r darpariaethau a ganlyn:

   - Adran 287 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref");
   - Adran 288 o'r Ddeddf honno;
   - Adran 63 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("y Ddeddf Adeiladau Rhestredig");
   - Adran 22 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ("y Ddeddf Sylweddau Peryglus"); ac
   - Adran 113 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol").

6. Mae'r holl ddarpariaethau a amlinellir uchod yn gymwys o ran Cymru. Ceir disgrifiad byr o bob un o'r darpariaethau hyn yn y paragraffau a ganlyn. Mae pob her o'r math a ddisgrifir yn y paragraffau hyn yn cael ei dwyn gan geisydd yn yr Uchel Lys. Ar hyn o bryd, does dim gofyniad bod rhaid cael caniatâd yr Uchel Lys cyn i her o'r fath gael ei gwneud.

*Adran 287 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref*

7. Mae adran 287 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn rhagnodi'r unig ffordd lle gall unrhyw berson a dramgwyddir gan y penderfyniad ar gynllun datblygu, cynllun neu orchymyn o'r fath amau dilysrwydd cynlluniau datblygu a chynlluniau a gorchmynion penodol y cyfeirir atyn nhw yn adrannau 247, 248, 249, 251, 257, 258 neu 277 o'r Ddeddf honno.

*Adran 288 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref*

8. Mae adran 288 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn rhagnodi'r unig ffordd lle gall unrhyw berson a dramgwyddir gan orchymyn neu gam o'r fath herio dilysrwydd y gorchmynion a grybwyllir yn adran 284(2) o'r Ddeddf honno, a'r camau a gymerir gan Weinidogion Cymru y cyfeirir atyn nhw yn adran 284(3) o'r Ddeddf honno.

*Adran 63 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig*

9. Mae adran 63 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn rhagnodi'r unig ffordd lle gall unrhyw berson a dramgwyddir gan orchymyn neu benderfyniad o'r fath herio dilysrwydd y gorchmynion, y penderfyniadau a'r cyfarwyddyd y cyfeirir atyn nhw yn adran 62(1) o'r Ddeddf honno.

*Adran 22 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus*

10. Mae adran 22 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus yn rhagnodi'r unig ffordd lle gall unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad o'r fath herio penderfyniadau a gymerir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 20 neu 21 o'r Ddeddf honno.

*Adran 113 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol*

11. Mae adran 113 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn rhagnodi'r unig ffordd lle gall unrhyw berson a dramgwyddir gan strategaeth, cynllun neu ddogfen o'r fath herio dilysrwydd unrhyw strategaeth, cynllun neu ddogfen y cyfeirir atyn nhw yn adran 113(1) o'r Ddeddf honno.

*Effaith y diwygiadau a gynigir gan y Bil*

12. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, drwy'r Atodlen newydd, yn cynnig diwygio'r adrannau y cyfeirir atyn nhw ym mharagraffau 5-11 fel y maent yn gymwys o ran Cymru, ochr yn ochr â newidiadau cyfatebol i'r adrannau hynny fel y maent yn gymwys o ran Lloegr. Effaith gyffredinol y diwygiadau hyn yw na chaniateir cais o dan yr adrannau hynny heb sicrhau caniatâd yr Uchel Lys.

13. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys gofyniad bod rhaid i gais o'r fath am ganiatâd gael ei wneud i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos ar ôl dyddiad a nodir ar gyfer pob gorchymyn, penderfyniad, cam, etc – er enghraifft y dyddiad y cadarnheir gorchymyn neu y mae gorchymyn yn dod yn effeithiol, neu'r dyddiad y cymerir cam neu benderfyniad.

14. Yn ychwanegol, wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd, cynigir y caniateir i'r Uchel Lys (yn unol ag amodau) fynd ati drwy orchymyn interim i atal gweithredu'r gorchymyn, y penderfyniad neu'r cam etc, y mae'r her arfaethedig yn ymwneud ag ef hyd nes y ceir y penderfyniad terfynol ar y cwestiwn a ddylid rhoi caniatâd; neu, os rhoddir caniatâd, hyd nes y ceir penderfyniad terfynol yr achos.

15. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y diwygiadau arfaethedig a ddisgrifir ym mharagraffau 12-14 uchod i'r darpariaethau hynny y cyfeirir atyn nhw ym mharagraffau 5-11 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i nodir ym mharagraff 18 (cynllunio gwlad a thref) yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol hefyd o ran 'sylweddau peryglus' a 'phriffyrdd' yn rhinwedd y Rhan honno o'r Atodlen.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn**

16. Mae'r newidiadau arfaethedig yn yr Atodlen newydd yn ymagwedd bragmatig at leihau effaith andwyol heriau anhaeddiannol ar y system gynllunio.  Gan hynny, bernir bod y cynigion yn ddymunol, a bod cyflwyno'r

newidiadau a nodwyd fel y maent yn gymwys o ran Cymru yr un pryd ag y cânt eu cyflwyno ar gyfer Lloegr yn osgoi'r risg o greu dryswch ac yn caniatáu dull gweithredu cyson.

17. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn yn y Bil hwn yn Senedd y Deyrnas Unedig gan mai dyna’r dull deddfu mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi’r darpariaethau hyn i fod yn gymwys o ran Cymru.

**Y goblygiadau ariannol**

18. Ni ddisgwylir goblygiadau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn sgil y newidiadau a nodwyd uchod.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Mai 2014**